**Cyngor Sir Dddinbych – Penderfyniadau a gymerwyd gan y Cabinet , Dydd Mawrth, 25 Mawrth 2014**

| Eitem ar yr Agenda | Pwnc | Penderfyniad |
|---|---|---|
| **1** | YMDDIHEURIADAU | Ymddiheuriadau ar ran y Cynghorydd Hugh Irving a fyddai'n cyrraedd y cyfarfod yn hwyr. |
| **2** | DATGAN CYSYLLTIAD | Datganodd y Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts gysylltiad personol yn Eitem Rhif 5 ar yr Agenda - Cynnig i gau Ysgol Llanbedr. Datganodd y Cynghorydd Jason McLellan gysylltiad personol a chysylltiad sy'n rhagfarnu, a datganodd y Cynghorydd David Simmons gysylltiad personol yn Eitem Rhif 6 ar yr Agenda – Cyfleusterau Arfordirol yn y Rhyl a Phrestatyn. |
| **3** | MATERION BRYS | Dim. |
| **4** | COFNODION | ***PENDERFYNWYD*** *y dylid cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Chwefror 2014 fel cofnod cywir ac y dylai'r Arweinydd eu llofnodi.* |
| **5** | CYNNIG CAU YSGOL LLANBEDR O 31 AWST 2014 A THROSGLWYDDO'R DISGYBLION I YSGOL BORTHYN, RHUTHUN, YN DIBYNNU AR DDEWIS Y RHIENI. | ***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn –*<br><br>*(a) nodi'r adroddiad penderfyniad a'r adroddiad gwrthwynebiad; ac*<br><br>*(b) yn amodol ar ystyried yr uchod, bod y Cabinet yn cymeradwyo'r cynnig i gau Ysgol Llanbedr ar 31 Awst 2014 a throsglwyddo'r disgyblion i Ysgol Borthyn, Rhuthun, yn dibynnu ar ddewis y rhieni.* |
| **6** | CYFLEUSTERAU ARFORDIROL YN Y RHYL A PHRESTATYN – OPSIYNAU RHEOLI DROS DRO | ***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn –*<br><br>*(a) cymeradwyo i ailagor y Ganolfan Bowlio o fis Ebrill/Mai 2014 a bod swyddogion yn edrych ar drefniant gweithredu yn y dyfodol mewn partneriaeth â'r clybiau bowlio* |

| Agenda Item No | Topic | Decision |
|---|---|---|
| | | *presennol;*<br><br>*(b) cytuno bod Canolfan Nova yn parhau i fod ar gau hyd nes y ceir cytundeb i gynigion ailddatblygu Alliance Leisure ym mis Mai 2014, gan nodi y bydd darpariaeth campfa a ffitrwydd arall dros dro ar gael yng Nghanolfan Hamdden Prestatyn, a gofyn i swyddogion edrych ar gyfleoedd nofio i'r cyhoedd yn y gymuned leol gyda darparwyr lleol eraill.*<br><br>*(c) cytuno nad yw'r Heulfan yn ailagor fel cyfleuster dŵr sy'n cael ei weithredu neu ei reoli gan y Cyngor; ac awdurdodi swyddogion i edrych ar gyfleoedd pellach i gael darparwyr trydydd parti i redeg yr Heulfan fel cyfleuster hamdden gwlyb neu sych, a nodi bod darpariaeth campfa, ffitrwydd a nofio arall ar gael dros dro yng Nghanolfan Hamdden y Rhyl;*<br><br>*(d) nodi y gall canlyniadau ariannol yr argymhellion gael eu cynnwys o fewn y gyllideb sydd ar gael ar gyfer cyfleusterau arfordirol yn y Rhyl a Phrestatyn;*<br><br>*(e) cadarnhau bod y Cyngor yn parhau i ganolbwyntio ar sicrhau cynnig hamdden dyfrol newydd ar gyfer y Rhyl drwy'r trefniadau y cytunwyd arnynt gan y Cabinet ym mis Chwefror, ac*<br><br>*(f) cytuno bod adolygiad mewnol yn cael ei wneud ar y ffordd y mae'r Cyngor yn monitro gweithrediad gan Clwyd Leisure Limited o'r cyfleusterau y cyfeirir atynt yn yr adroddiad.* |
| **7** | CYNLLUNIAU TREF AC ARDAL | ***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn –*<br><br>*(a) cymeradwyo mabwysiadu'r Cynlluniau Ardal (sy'n cynnwys y Cynlluniau Tref presennol) ar gyfer y Rhyl, Dinbych Rhuddlan;* |

**Cyngor Sir Dddinbych – Penderfyniadau a gymerwyd gan y Cabinet , Dydd Mawrth, 25 Mawrth 2014**

| Agenda Item No | Topic | Decision |
|---|---|---|
| | | *(b) cymeradwyo'r cyllid ar gyfer y blaenoriaethau a nodir yn y Cynlluniau Ardal a gyfeirir atynt uchod; ac yn*<br><br>*(c) nodi'r wybodaeth o safbwynt gwariant hyd yn hyn ar y Cynlluniau Tref ac Ardal.* |
| **8** | DIGWYDDIAD BEICIO WIGGLE ETAPE CYMRU 2014 | ***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn nodi'r trefniadau a roddwyd ar waith i fynd i'r afael â phryderon y gymuned a'r aelodau, cytuno ar gau'r ffordd a chymeradwyo'r digwyddiad* |
| **9** | ARGYMHELLION Y GRŴP BUDDSODDI STRATEGOL | ***PENDERFYNWYD*** *bod y prosiectau a nodwyd yn Atodiad 1 o'r adroddiad i'w cynnwys yn y Cynllun Cyfalaf 2014/15 yn cael ei gefnogi a'i argymell i'r Cyngor llawn.* |
| **10** | ADRODDIAD CYLLID | ***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn –*<br><br>*(a) nodi'r cynnydd yn erbyn strategaeth y gyllideb y cytunwyd arni.*<br><br>*(b) cymeradwyo'r trosglwyddiad canlynol o'r cronfeydd wrth gefn fel y manylir yn Adran 6 o'r adroddiad - £23m o'r gronfa Cynllunio mewn perthynas â ffioedd a dderbyniwyd yn y flwyddyn gyfredol, ond sy'n ymwneud â gwariant yn 2014/15* |
| **11** | RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CABINET | ***PENDERFYNWYD*** *nodi Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet.* |